



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn –20.04.2018

Noson Wobrwyo Ysgol Bro Myrddin

Ar nos Fercher, 28ain o Fawrth 2018 cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Y siaradwr gwadd oedd Mr Dyfrig Davies, uwch gynhyrchydd a rhan berchennog cwmni teledu Telesgop a Chadeirydd yr Urdd. Cafwyd ganddo araith ddifyr iawn a phwrpasol. Perfformiwyd *O Dduw, Rhanna'th Fendithion (John Rutter)* gan y Côr merched hŷn ac *O Hyfryd Ddydd (Edwin R Hawkins)* gan y Côr hŷn o dan arweiniad Mrs Meinir Richards. Cyfeiliwyd gan Ms Nia Evans a Miss Sioned Beynon, Manon Dafydd Jones, Mali Hughes, Genllian Howells a Catrin Owen.

Braf oedd gweld cynifer o ddisgyblion presennol yr ysgol, cyn-ddisgyblion a rhieni'n bresennol. Croesawyd pawb gan y prif Swyddogion Garmon Dyfri a Mared Owen. Anerchwyd y gynulleidfa hefyd gan y pennaeth Dr Llinos Jones a dosbarthwyd y gwobrwyon gan Mr Dyfrig Davies a'r pennaeth. Darparwyd lluniaeth i bawb ar ddiwedd y noson - diolch i Mrs Non Knott a'i thîm o gynorthwywyr a fu'n paratoi a gweini'r arlwy. Llongyfarchiadau gwresog i'r holl ddisgyblion ar eu llwyddiannau a diolch i'r noddwyr a gyfrannodd tuag at y gwobrau. Diolch yn fawr i bawb.



Enillwyr Gwobrau 2017

Gwobr Ysgol Bro Myrddin	:	<i>Rosa Bruce / Cai Evans</i>
Gwobr Goffa Beti Hughes	:	<i>Sioned Beynon</i>
Tlws Gareth Evans (Blwyddyn 13)	:	<i>Elen Fflur Davies</i>
Tlws Gareth Evans (Blwyddyn 11-13)	:	<i>Carwyn Bebb</i>
Gwobr St Peter's Players	:	<i>Elen Fflur Davies</i>
Tlws Coffa Megan a Myfanwy	:	<i>Ffion Richardson</i>
Tlws Coffa Rhian Denby Jones	:	<i>Efa Jones</i>
Tlws yr Adran Fusnes	:	<i>Siôn Jones</i>
Tlws Andrew Rees	:	<i>Sioned Beynon</i>
Tlws yr Adran Gerdd	:	<i>Manon Dafydd Jones</i>
Tlws Hugh Griffiths	:	<i>Angharad Beach</i>
Tlws Coffa Margaret Morris	:	<i>Osian McAvoy</i>
Tlws Addysg Gorfforol	:	<i>Efa Jones</i>
Tlws Elin Ruth Jenkins	:	<i>Jessicca Thomas</i>
Tlws Non Jenkins	:	<i>Meurig Francis</i>
Tlws Peter Hughes Griffiths	:	<i>Jessicca Thomas</i>
Tlws Emlyn Schiavone	:	<i>Rhodri Williams</i>
Tlws Rheon ac Eiliw James	:	<i>Thomas Jones</i>
Gwobr Ieithoedd Tramor Modern	:	<i>Rosa Bruce</i>

Dwy genhedlaeth yn annog disgyblion Caerfyrddin i ystyried prentisiaethau

Bu dau brentis o genedlaethau gwahanol yn ymweld â'u hen ysgol uwchradd yn ystod Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau yn ddiweddar er mwyn annog y disgyblion i ystyried prentisiaethau fel llwybr i'w gyrfa ddewisol.

Aeth Sam Phillips, 18 oed, a Dylan Evans, 39 oed, i Ysgol Bro Myrddin dros ugain mlynedd ar wahân i'w gilydd, gan gwblhau arholiadau TGAU yno. Er iddyn nhw ddilyn trywydd hollol wahanol, mae Sam a



Dylan yn brentisiaid adeiladu gyda Cyfle Building Skills ac ar ben ffordd i gymhwyso'n grefftwyr. Eu gobaith, trwy'r ymweliad oedd dangos i ddisgyblion Bro Myrddin bod

prentisiaethau'n gallu bod yn allweddol i lwyddiant gyrfaol unrhyw bryd yn ystod bywyd.

Penderfynodd Sam fynd i'r coleg i astudio gwaith saer ar ôl cwblhau TGAU. Wedi blwyddyn yno, cafodd brentisiaeth trwy Cyfle Building Skills. Bellach, mae ar ei ail flwyddyn ac yn gweithio tuag at NVQ Lefel 2 mewn gwaith saer.

Wrth adeiladu ei dŷ ei hun, aeth Dylan ati i wneud rhywfaint o'r gwaith adeiladu ei hun er mwyn arbed arian – a mwynhau cymaint nes mynd yn ôl i'r coleg i hyfforddi fel trydanwr.


Yn ôl Rhys Fisher, Cydlynnydd Academi gyda Cyfle Building Skills: “Fe wnaethon ni lansio ein cynllun rhannu prentisiaeth yn 2013, ac rydym wedi cydweithio’n agos â busnesau adeiladu’r Gorllewin byth ers hynny er mwyn helpu oedolion ifanc i gael swydd gynaliadwy yn y sector adeiladu. Mae prinder a bylchau sgiliau amlwg iawn yn y sector hwn, ac rydyn ni’n cyflogi unigolion rhannu prentisiaeth yn y meysydd lle mae’r angen mwyaf yn y diwydiant. Mae Sam a Dylan yn dalentog eu maes dewisol, ac yn cael hwyl dda iawn arni.”

Meddai Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: “Mae Dylan a Rhys yn enghreifftiau perffaith o sut gall prentisiaethau weddnewid bywydau, a helpu pobl gyda’i gyrfaoedd. Mae prentisiaethau’n pwysleisio pwysigrwydd ennill profiad gwaith ymarferol wrth weithio sy’n darparu’r sgiliau a’r cymwysterau sydd eu hangen ar bobl i feithrin gyrfa gwerth chweil.

Dysgwyd cryn dipyn gan y disgyblion a diolch i Dylan a Sam am roi o’u hamser.

Cerddor Ifanc Dyfed 2018!

Llongyfarchiadau mawr i Andrea Chang Jones sydd wedi ennill Cerddor Ifanc Dyfed 2018.



Sioe Ffasiynau

Nos Iau 19eg o Ebrill cynhalwyd Sioe Ffasiynau yn neuadd Ysgol Bro Myrddin wedi ei threfnu gan Gymdeithas Rhieni yr Ysgol. Anerchwyd y gynulleidfa gan y Pennaeth Dr Llinos Jones a siaradwr gwadd y noson oedd Mrs Meinir John sef cyn ddirprwy'r Ysgol. Modelwyd dillad o siopau dillad menywod Rig Out a dillad dynion o siop Chess, Llandeilo. Diolch i'r holl fodolau a braf oedd gweld cyn-ddisgyblion, disgyblion, rhieni, ffrindiau a staff yn arddangos y dillad. Cyflwynwyd y noson gan Aled Samuel a Rhian Morgan.



Noson dathlu diwylliant Sir Gâr

Llongyfarchiadau i gorau'r ysgol ar ennill Rhagoriaeth mewn Cerddoriaeth ar gyfer y flwyddyn 2017-2018 a gyflwynwyd mewn noson arbennig yn Theatr y Ffwrnais yn ddiweddar. Derbyniwyd y wobr ar ran yr ysgol gan Mrs Meinir Richards, pennaeth Cerdd yr ysgol a Mared a Garmon, prifswyddogion yr ysgol.

